*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 187(2)(n) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U   D R A F F T

# 2025 Rhif (Cy. )

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

# Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Pennu Gweithwyr Gofal Cymdeithasol) (Cofrestru) (Diwygio) 2025

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Pennu Gweithwyr Gofal Cymdeithasol) (Cofrestru) 2016.

Mae adran 80(1)(b) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i Ofal Cymdeithasol Cymru gadw cofrestr o weithwyr gofal cymdeithasol o unrhyw ddisgrifiad a bennir gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau.

Mae'r Rheoliadau hyn yn pennu disgrifiad ychwanegol o weithwyr gofal cymdeithasol y mae rhaid i Ofal Cymdeithasol Cymru gadw cofrestr mewn cysylltiad â hwy, sef y rhai sydd wedi eu cyflogi (pa un ai fel cyflogai neu fel gweithiwr) neu sydd wedi eu cymryd ymlaen o dan gontract am wasanaethau i ddarparu gofal a chymorth i unrhyw berson yng Nghymru mewn cysylltiad â gwasanaeth preswyl ysgol arbennig.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru,

Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac mae wedi ei gyhoeddi ar www.llyw.cymru.

*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 187(2)(n) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U  D R A F F T

# 2025 Rhif (Cy. )

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Pennu Gweithwyr Gofal Cymdeithasol) (Cofrestru) (Diwygio) 2025

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | ***** |
| *Yn dod i rym* | *1 Ebrill 2025* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 80(1)(b) a 187(1)(b) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016(**1**) ("Deddf 2016"), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Yn unol ag adran 187(2)(n) o Ddeddf 2016, gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad(**2**).

**Enwi a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Pennu Gweithwyr Gofal Cymdeithasol) (Cofrestru) (Diwygio) 2025.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2025.

(**1**) 2016 dccc 2.

(**2**) Mae cyfeiriadau yn Neddf 2016 at "Cynulliad Cenedlaethol Cymru" bellach yn cael effaith fel cyfeiriadau at Senedd Cymru yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

**Dehongli**

**2.** Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "Rheoliadau 2016" yw Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Pennu Gweithwyr Gofal Cymdeithasol) (Cofrestru) 2016(**1**).

**Diwygio rheoliad 2 o Reoliadau 2016**

**3.** Yn rheoliad 2 (dehongli) o Reoliadau 2016, mewnosoder y canlynol yn y lle priodol—

> "mae i "gwasanaeth preswyl ysgol arbennig" ("*special school residential service*") yr un ystyr ag a roddir yn rheoliad 2 o Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig) (Cymru) 2023(**2**);".

**Diwygio rheoliad 3 o Reoliadau 2016**

**4.** Mae rheoliad 3 (pennu gweithwyr gofal cymdeithasol) o Reoliadau 2016 wedi ei ddiwygio fel a ganlyn—

(a) ym mharagraff (2)(b)—

(i) ar ddiwedd paragraff (iv) hepgorer "neu";

(ii) ar ddiwedd paragraff (v) mewnosoder "neu";

(iii) ar ôl paragraff (v) mewnosoder—

"(vi) â gwasanaeth preswyl ysgol arbennig,";

(b) ym mharagraff (2)(bb)—

(i) ar ddiwedd paragraff (iv) hepgorer "neu";

(ii) ar ddiwedd paragraff (v) mewnosoder "neu";

(iii) ar ôl paragraff (v) mewnosoder—

"(vi) â gwasanaeth preswyl ysgol arbennig,".

*Enw*
Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol, o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru
Dyddiad

(**1**) O.S. 2016/1235 (Cy. 293), a ddiwygiwyd gan O.S. 2018/192 (Cy. 43) ac O.S. 2020/286 (Cy. 65).
(**2**) O.S. 2023/1327 (Cy. 238).